

## Y bar mitzvah olaf

### *Kristallnacht* gwrs 2 o 2

#### Nodiadau Athrawon

Ar 9 a 10 Tachwedd 1938, cynhaliodd y gyfundrefn Natsïaidd gyfres o ymosodiadau o'r enw 'pogroms' yn erbyn y boblogaeth Iddewig yn yr Almaen a thiriogaethau eraill a oedd wedi'u meddiannu gan y Natsïaid. Daeth y digwyddiad hwn i gael ei adnabod fel *Kristallnacht* neu 'Noson y Gwydr Toredig' oherwydd y gwydr drylliedig a lenwodd y strydoedd ar ôl fandaliaeth a dinistr synagogau, busnesau a chartrefi a oedd yn eiddo i Iddewon. Yn y casgliad hwn o adnoddau, rydym yn archwilio atgofion Julius Weil, a arferai fyw yng Nghymru, o'r digwyddiad dinistriol hwn. Bu farw Julius Weil yng Nghaerdydd yn 2021.

Yn dilyn ymlaen o *Kristallnacht* 1, mae'r ail wers hon yn archwilio hanes Julius Weil o'i bar mitzvah, yr olaf i ddigwydd yn Synagog Glockengasse cyn iddi gael ei dinistrio yn ystod *Kristallnacht*. Bydd myfyrwyr yn archwilio effaith y digwyddiad hwn mewn ffordd greadigol, gan greu eu gosodiadwaith bach eu hunain.

Dyma sesiwn 2 o 2 ar y testun *Kristallnacht* ac argymhellir bod athrawon yn defnyddio'r ddau adnodd. Mae'n rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocaust. Efallai y byddwch am roi sylw i daflen waith yr Holocaust Educational Trust '[Diffinio'r Holocaust](#)' cyn dechrau ar y set hon o ddwy sesiwn.

#### Cysylltiadau cwricwlwm

#### Cyfnod Allweddol 4

Celf a dylunio, Hanes, Sgiliau Llythrennedd

## Cynllun Gwers

### AMCANION DYSGU

- Deall beth yw bar mitzvah person ifanc a'i bwysigrwydd.
- Archwilio sut y gellir defnyddio celf a symbolaeth i gynrychioli digwyddiadau dinistriol *Kristallnacht*.
- Gallu ymateb gydag empathi, dealltwriaeth a chreadigrwydd i ddigwyddiad hanesyddol.

### ADNODDAU/OFFER SYDD EU HANGEN

Copiâu o daflen waith y grŵp.

Trawsgrifiad o'r clip fideo.<sup>1</sup>

Er nad yw'n gwbl angenrheidiol, byddai'r wers hon yn elwa pe bai myfyrwyr yn cael mynediad i **Stiwidio Ddrama** gyda rig goleuo. Os nad oes gennych chi fynediad i stiwdio Ddrama blwch du, gallwch osod ardaloedd yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer pob grŵp gyda rhywfaint o ffabrig du, cerdyn neu bapur i greu'r 'blwch du' lle gall y myfyrwyr greu eu gosodwaith. Gellir defnyddio lampau neu fflachlampau i efelychu rig goleuo.

Bydd angen i chi hefyd gasglu amrywiaeth o wrthrychau syml a/neu ddeunyddiau celf i'r myfyrwyr eu defnyddio. Gallai propiau a deunyddiau enghreifftiol gynnwys papur o wahanol liwiau, 'darnau gwydr wedi torri' ffug (sy'n ddiogel i'w defnyddio ac ar gael fel cyflenwad celf), paent, eitemau o ddillad (e.e., gwisg parti).

### MAN CYCHWYN

Dangoswch y ddelwedd [One Spring \(1941\) gan Karl Bodek a Kurt Conrad Löw](#).

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r grŵp:

- Beth allwch chi ei weld yn y llun hwn? Beth allai'r ddelwedd hon ei gynrychioli? Beth allai'r weiren bigog, y glöyn byw a'r lliw melyn ei **symboleiddio**?

Trafodwch mewn grwpiau bach /parau ac yna rhowch adborth i'r dosbarth cyfan.

Eglurwch pa mor bwysig yw hi nad oes angen i gelf sy'n darlunio'r Holocaust fod yn graff nac yn ddirdynol i edrych arno; gellir defnyddio symbolaeth i bortreadu'r digwyddiadau dinistriol hyn.

### DATBLYGU

Rhowch grynodedb o'r hyn a ddysgwyd o *Kristallnacht* 1. **Beth** oedd Kristallnacht? **Pryd** y digwyddodd? Ar **bwyl** yr effeithiodd a sut?

---

<sup>1</sup> Fe wnaethon ni ychwanegu trawsgrifiad y clip fideo, y gallwch chi ddewis ei rannu gyda'ch myfyrwyr os ydych chi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol. Mae'r trawsgrifiad yn Gymraeg a Saesneg tra bod y clip yn Saesneg yn unig.

Cyflwynwch y seremoni bar mitzvah Iddewig trwy rannu'r diffiniad canlynol a gwylio'r clip fideo <https://jewishmuseum.org.uk/schools/asset/life-cycle-bar-bat-mitzvah/>.

*"Mae Bar neu Bat Mitzvah yn seremoni dod i oed ar gyfer bechgyn a merched Iddewig pan fyddant yn cyrraedd 12 neu 13 oed. Mae'r seremoni hon yn nodi'r amser pan ddaw bachgen neu ferch yn oedolyn Iddewig. Mae hyn yn golygu eu bod bellach yn gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain a gallant benderfynu drostynt eu hunain sut yr hoffent arfer Iddewiaeth."*<sup>2</sup>

Os oes gennych chi fyfyrwyr Iddewig yn eich dosbarth efallai yr hoffent rannu eu profiadau eu hunain. Gallwch hefyd drafod pwysigrwydd seremonïau tebyg mewn crefyddau eraill, e.e., confyrmasiwn neu seremonïau a digwyddiadau pwysig eraill y mae myfyrwyr neu eu teuluoedd wedi bod yn rhan ohonynt, e.e., bedydd, priodas, graddio, angladd, Hajj. Pam maen nhw'n bwysig?

Nesaf, gwyliwch y [clip fideo o Julius Weil \(y clywsom ei hanes llafar yn y wers \*Kristallnacht\* gyntaf\) yn trafod ei bar mitzvah](#).

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r dosbarth, y gallan nhw eu trafod mewn parau:

- Sut gallai Julius fod wedi teimlo mai ei bar mitzvah ef oedd yr olaf yn y synagog cyn iddi gael ei dinistrio yn ystod *Kristallnacht*?
- Beth am y bobl ifanc Iddewig yn Cologne ac ar draws Ewrop nad oedd byth wedi gallu cael eu seremoni? Sut gallen nhw deimlo?

#### PRIF RAN Y WERS

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach o dri neu bedwar a dosbarthwch y daflen dasg sy'n cyd-fynd â'r rhan yma.

Gellir rhoi tua 20 munud i fyfyrwyr gwblhau'r ymarfer. Mae gennych hefyd yr opsiwn i ymestyn y dasg, os yw amser yn caniatáu, i greu gosodiadwaith mwy o faint a mwy manwl. Er enghraifft, gallai myfyrwyr gynllunio eu gosodiadwaith yn y wers gyntaf a gallai eu tasg gwaith cartref gynnwys paratoi eitemau i'w rhannu yn y wers nesaf. Gallai hyn ganiatáu mwy o ddewis a pherchnogaeth.

Neilltuwch ddigon o amser i weld a gwerthuso'r holl osodiadwaith. Efallai yr hoffech dynnu llun ohonynt i'w harddangos. Byddem wrth ein bodd yn gweld beth mae'r myfyrwyr yn ei greu! Rhannwch eich lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol gan dagio JHASW/CHIDC a CMOP yn eich postiau neu anfonwch y delweddau atom ac fe wnawn ni eu postio ar ein gwefan.

#### CYFAN

Gofynnwch i'r myfyrwyr wneud rhai nodiadau myfyriol ar y cwestiynau canlynol:

- Pa osodiadwaith gafodd yr effaith fwyaf arnoch chi a pham?
- Beth wnaethoch chi ei fwynhau am ymateb mewn ffordd greadigol? Beth oedd yr heriau?
- Pa rôl all celf a symbolaeth ei chwarae wrth archwilio digwyddiadau dychrynlyd fel *Kristallnacht*?

---

<sup>2</sup> Jewish Museum London, *Life Cycle: Coming of Age* <<https://jewishmuseum.org.uk/schools/asset/life-cycle-bar-bat-mitzvah/>> [cyrchwyd 26 Ionawr 2022].

## Trawsgrifiad

### Dyfyniad fideo: Julius Weil – bar mitzvah

Digwyddodd fy mharatoad ar gyfer bar mitzvah pan oeddwn i'n ddeuddeg oed ac yn dair ar ddeg oed, cefais fy bar mitzvah yn y synagog o'r enw y Glockengasse yn Cologne [Köln yn Almaeneg]. Roedd y synagog yn hen un. Byddwn i'n dweud mwy na thebyg y pryd hynny, yn 1938, mae'n debyg y byddai wedi bod yn gant oed. Ond ar Kristallnacht, wrth gwrs, cafodd ei llosgi a'i dinistrio ynghyd â llawer o synagogau eraill, ac roedd hyn ychydig dros bythefnos ar ôl fy bar mitzvah. Ac, felly, fy un i oedd yr olaf i gael ei gynnal yn y synagog arbennig hon.